# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol y Ddwylan

## Adroddiad Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## CYNNWYS


**1.Crynodeb Gweithredol** ........................................................ 3

**2.Cefndir** ........................................................ 3

**3.Y Broses Ymgynghori** ........................................................ 3

**4.Dadansoddi'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad** ........................................................ 4

- **4.1 Arolwg ar-lein** ........................................................ 4
- **4.2 Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost** ........................................................ 8
- **4.3 Ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** ........................................................ 9
- **4.4 Dadansoddi'r Ymgynghoriad â Disgyblion** ........................................................ 11
- **4.5 Ymateb Estyn:** ........................................................ 13

**5.Casgliad** ........................................................ 15

**6.Argymhelliad** ........................................................ 15

**7.Y Camau Nesaf** ........................................................ 16

**Atodiad A – Ymateb Estyn** ........................................................ 17

**Atodiad B – Ymgynghori â disgyblion** ........................................................ 20

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Ddwylan o 4-11 i 3-11. Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gymysg, a mynegwyd barn gadarnhaol/gefnogol a negyddol/gwrthwynebol. Ymhlith y prif themâu o blaid y cynnig roedd natur adeiladol a chynhwysol y datblygiad, manteision o ran parhad y Gymraeg, a phwysigrwydd cynnal niferoedd disgyblion a phroses bontio hwylus i fywyd ysgol. Y themâu a berai'r pryder mwyaf oedd yr effaith ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar bresennol, priodoldeb yr oedran dechrau, ac effeithiau niweidiol posibl ar y gymuned leol.

## 2. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i gynigion i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Ysgol y Ddwylan o 4-11 i 3-11 a chynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser.

Mae'r adroddiad yn nodi'r broses ymgynghori, yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y prosesau ymgynghori gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 4 Medi 2025. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol y Ddwylan mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025 wedi'u nodi isod:

| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 1 | 1 | 8 |

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad a chasglwyd adborth gan y disgyblion.

### 4.1 AROLWG AR-LEIN

Cafwyd cyfanswm o chwe ymateb i'r arolwg ar-lein. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Nodir yr ymatebion isod.

**C1. Ydych chi'n ymateb fel:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant, gofalwr neu warcheidwad | 3 | Cyngor Cymuned | 0 |
| Llywodraethwr | 2 | Arall: | 1 |
| Aelod o'r gymuned | 0 | Staff | 0 |
| Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad | 0 | | |

**C2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?**

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 5 | 0 | 1 |

Mae'r adborth o'r arolwg ar-lein yn dangos ymateb cadarnhaol i'r cynnig yn bennaf, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth.

**C3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?**

| **C3 Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **Cefnogi'r cynnig** | **Ddim yn cefnogi'r cynnig** |
| Cefnogaeth i'r cynnig a'i amseriad. | Pryder am yr effaith negyddol ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar bresennol (Cylch Meithrin) |
| Manteision canfyddedig o ran proses bontio plant i'r ysgol. | Cred bod dechrau'r ysgol yn dair oed yn rhy gynnar. |
| Effaith gadarnhaol ar barhad y Gymraeg a chynhwysiant. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad adeiladol a chynhwysol. Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cefnogi parhad ieithyddol, a sicrhau proses bontio hwylus i ddisgyblion. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r dyletswyddau statudol i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleoedd addysgol o ansawdd uchel i bob dysgwr.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon ynghylch yr effaith ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a'r oedran dechrau arfaethedig. Bwriad y cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 yw ategu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar bresennol yn y gymuned, gan gynnwys y Cylch Meithrin yn yr ysgol, yn hytrach na chymryd ei lle neu gael effaith negyddol arni. Mae lleoliadau Cylch Meithrin yn canolbwyntio'n bennaf ar ofal cofleidiol a throchi yn y Gymraeg, ond bydd y ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn darparu'r elfen addysgol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Bydd teuluoedd yn parhau i allu dewis defnyddio'r Cylch Meithrin ar gyfer gwasanaethau cofleidiol a gofal plant ochr yn ochr â meithrinfa yr ysgol, gan sicrhau y gall y ddau leoliad gydweithio i gefnogi plant a rhieni.

O ran y pryder am oedran, nid yw mynychu meithrinfa yn 3 oed yn orfodol; mae'n opsiwn i rieni sy'n teimlo bod eu plentyn yn barod. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â pholisi

Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd addysg blynyddoedd cynnar ac yn cefnogi datblygiad plant wrth baratoi ar gyfer addysg amser llawn.

**C4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol y Ddwylan yn eich barn chi?**

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol y Ddwylan yn eich barn chi? | 0 | 6 |
| **Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill**<br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau yn cyflwyno opsiynau eraill. | | |

**C5. a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.a Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| Manteision caffael y Gymraeg yn gynnar. Mae dysgu ieithoedd yn haws ar oedran iau. | Effaith gadarnhaol ar barhad y Gymraeg. Cyflwyno'r Gymraeg i gartrefi di-Gymraeg cyn gynted â phosibl. |
| Datblygiad adeiladol a chynhwysol. Mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn un priodol, adeiladol a chefnogol i rôl Ysgol y Ddwylan. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a chynyddu cyfleoedd i blant a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg, fel y nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae trochi cynnar yn strategaeth allweddol ar gyfer sicrhau dwyieithrwydd a chefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**C5. b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.b Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** |
| --- |
| Hyder yn ansawdd Ysgol y Ddwylan a chefnogaeth gref i'r cynnig fel datblygiad cadarnhaol, adeiladol a chynhwysol. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r hyder a fynegwyd yn Ysgol y Ddwylan a'r gefnogaeth i'r cynnig fel datblygiad adeiladol a chynhwysol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswydd statudol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r egwyddorion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i sicrhau bod newidiadau trefniadaethol yn hyrwyddo addysg o ansawdd uchel a manteision cymunedol.

Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, mae'r cynnig yn cefnogi ein gweledigaeth hirdymor i gryfhau addysg cyfrwng Cymraeg a pharhad ieithyddol o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd. Mae'r pwyslais ar gynhwysiant a datblygiad adeiladol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu cymunedau dysgu cynaliadwy sy'n darparu mynediad teg i gyfleoedd Cymraeg, yn unol â pholisi cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y broses o weithredu'r cynnig hwn yn cynnal y nodau strategol hyn, yn cefnogi egwyddorion trochi yn y blynyddoedd cynnar, ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**C5. c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.c Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** |
| --- |
| Hyder yn ansawdd Ysgol y Ddwylan a chefnogaeth gref i'r cynnig fel datblygiad cadarnhaol, adeiladol a chynhwysol. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r hyder a fynegwyd yn Ysgol y Ddwylan a'r gefnogaeth i'r cynnig fel datblygiad adeiladol a chynhwysol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswydd statudol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r egwyddorion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i sicrhau bod newidiadau trefniadaethol yn hyrwyddo addysg o ansawdd uchel a manteision cymunedol.

Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, mae'r cynnig yn cefnogi ein gweledigaeth hirdymor i gryfhau addysg cyfrwng Cymraeg a pharhad ieithyddol o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd. Mae'r pwyslais ar gynhwysiant a datblygiad adeiladol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu cymunedau dysgu cynaliadwy sy'n darparu mynediad teg i gyfleoedd Cymraeg, yn unol â pholisi cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y broses o weithredu'r cynnig hwn yn cynnal y nodau strategol hyn, yn cefnogi egwyddorion trochi yn y blynyddoedd cynnar, ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 4.2 YMATEBION A GYFLWYNWYD DRWY E-BOST

Cafwyd un e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy e-bost ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Mae pob un o themâu'r adborth a roddwyd gan ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau drwy e-bost wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost** |
|---|
| **Cefnogaeth ar gyfer newid ystod oedran** – cymeradwyaeth glir i newid o 4–11 i 3–11. |
| **Profiad cadarnhaol o'r ddarpariaeth bresennol –** ysgol wedi'i disgrifio fel un feithringar |
| **Manteisiol i'n plant ein hunain** – dechrau cynharach yn cael ei ystyried yn fanteisiol ar gyfer datblygiad. |
| **Hygyrchedd gofal plant ac effaith ar y teulu** – byddai'r cynnig yn lleddfu'r pwysau ar rieni sy'n gweithio ac yn gwella fforddiadwyedd. |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r gefnogaeth gref gan rieni i ymestyn yr ystod oedran a bydd yn sicrhau bod y cynnig yn cyd-fynd â'r gofynion statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys ystyried y galw a'r effaith ar y gymuned.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn pwysleisio trochi cynnar a pharhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig yn cefnogi'r nodau hyn trwy alluogi mynediad cynharach at ddysgu strwythuredig.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd hygyrchedd gofal plant a bydd yn gweithio gyda phartneriaid fel y Cylch Meithrin i integreiddio addysg blynyddoedd cynnar a gofal cofleidiol, gan gefnogi teuluoedd sy'n gweithio a hyrwyddo dwyieithrwydd.

## 4.3 YMATEBION A GYFLWYNWYD DRWY LYTHYR

Cafwyd un ymateb drwy lythyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy lythyr ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** | |
|---|---|
| **Themâu yn cytuno â'r cynnig** | **Themâu yn erbyn y cynnig / pryderon** |
| Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar | Staffio a Chymhwysedd Iaith |
| Ehangu Trochi Cynnar yn y Gymraeg | Trochi'n Llawn yn y Gymraeg – diwygio categori iaith |
| Proses Bontio Hwylus i Blant Ifanc | Ymgysylltu â rhieni |
| Cynaliadwyedd yr Ysgol | Diogelu'r sector Cymraeg nas cynhelir |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a'r Gymuned | Risgiau Pontio |
| | Monitro a Thargedau |
| | Mentrau Cymunedol |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynigion i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a chryfhau parhad ieithyddol. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n blaenoriaethu trochi cynnar, ymgysylltu cymunedol, a chynaliadwyedd ysgolion. Bydd yr adborth cadarnhaol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses statudol o wneud penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr argymhellion adeiladol ynghylch staffio, trochi'n llawn yn y Gymraeg, ymgysylltu â rhieni a diogelu'r sector nas cynhelir. Un o effeithiau cael gwared ar y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed yw y bydd plant yn aros mewn lleoliadau darpariaeth feithrin a gofal plant am dymor ychwanegol bellach. Yn y tymor byr, gallai hyn greu galw ychwanegol am ddarparu addysg anstatudol ar gyfer mwy o blant tair oed, a galw cynyddol am ofal cofleidiol o bosib. Yn ddelfrydol, byddai'r galw hwn yn cael ei fodloni gan y sector nas cynhelir lle bydd darparwyr yn gallu ehangu'r ddarpariaeth i dderbyn mwy o blant ar gyfer naill ai o leiaf 10 awr o addysg neu ofal cofleidiol, neu'r ddau.

Mae Castellnewydd Emlyn wedi'i nodi fel cymuned lle nad yw hyn yn digwydd a lle mae bylchau yn y ddarpariaeth o'r elfen addysg, felly mae'r Cyngor yn cynnig newid ystod oedran Ysgol y Ddwylan. Byddai hyn yn caniatáu i'r ysgol gynnig yr elfen o 10 awr o leiaf o addysg anstatudol y Blynyddoedd Cynnar a sicrhau darpariaeth decach ledled Sir Gaerfyrddin.

Roedd y llythyr yn cynnwys awgrym i newid categori iaith yr ysgol. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud yn unig â newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 ac nid yw'n bwriadu cynnwys unrhyw newidiadau i gategori iaith yr ysgol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i weithredu'r dewis arall hwn fel rhan o'r cynnig hwn, a byddai angen ystyried hyn fel rhan o'r drafodaeth strategol ehangach ynghylch datblygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Deilliant 1 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sy'n ceisio sicrhau bod mwy o blant meithrin a thair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau dilyniant ieithyddol o’r sector meithrin drwy'r holl gyfnodau allweddol i’r sector

uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal, mae gan y Cyngor gynllun deng mlynedd i gynorthwyo ysgolion dwy ffrwd a thrawsnewid presennol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid categori iaith yr ysgol yn cael sylw trwy brosesau ar wahân ac nid ydynt yn rhan o'r cynnig presennol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth feithrin yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfathrebu'n glir â rhieni.
- Bydd yr ysgol yn sicrhau bod staff yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm yn hyderus.

Bydd yr holl adborth a risgiau a nodir yn cael eu hystyried yn gydwybodol, a bydd mesurau lliniaru yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu os oes angen i sicrhau bod y cynigion yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddysgwyr, teuluoedd a'r Gymraeg.

## 4.4 DADANSODDI'R YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol y Ddwylan ar 15 Hydref 2025 mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a gafwyd yn Atodiad B.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **C1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?** | |
| Nid oedd disgyblion yn ymwybodol o'r newid arfaethedig o'r blaen. | Dywedodd y disgyblion eu bod yn hapus eu bod wedi'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| **C2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?** | |
| Agwedd gadarnhaol: Bydd plant iau yn elwa o ddysgu cynnar, yn enwedig o ran datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd. | Mae disgyblion hŷn yn gweld cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth a chyfrifoldeb. |
| Pryderon am ddiogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd i blant iau. | Angen mwy o athrawon ac adnoddau. |

| | |
|---|---|
| **C3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?** | |
| Perthynas gadarnhaol ag athrawon. | Mwynhau amser chwarae, offer awyr agored, ac addysg gorfforol. |
| Gwerthfawrogi'r amgylchedd dysgu tawel. | |
| **C4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?** | |
| Byddai plant iau yn setlo'n well ac yn dysgu yn gyflymach. | Mae dechrau cynnar mewn darllen ac ysgrifennu yn fanteisiol. |
| Byddai disgyblion hŷn yn cael cyfrifoldeb, gan gryfhau cymuned yr ysgol. | Manteision i'r rhieni, wrth i blant ddysgu mwy o oedran cynharach |
| **C5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?** | |
| Pryderon am le a'r angen i ad-drefnu'r iard. | Risgiau diogelwch i blant iau (anafiadau, damweiniau). |
| Straen posibl i athrawon a'r angen am fwy o staff. | Pryderon am barodrwydd plant iau ar gyfer gweithgareddau ysgol. |
| **C6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?** | |
| Barn gymysg: Mae rhai disgyblion yn cefnogi dechrau'n dair oed, mae'n well gan eraill ddechrau'n bedair oed. | Mae cefnogaeth ar gyfer dechrau yn dair oed yn cynnwys manteision dysgu, datblygiad iaith, a chymorth rhieni. |
| Mae pryderon am ddechrau'n rhy gynnar yn cynnwys parodrwydd, pwysau ar blant ac athrawon, cost, a llai o gyfleoedd o bosibl i ddisgyblion hŷn. | Awgrymiadau ynghylch cyflwyno'n raddol (sesiynau byrrach, grwpiau bach). |
| Pwysigrwydd addasu'r amgylchedd i blant iau. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol i adborth gan ddisgyblion:**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu ymgysylltu â disgyblion ac yn gwerthfawrogi eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion, yn cael gwybodaeth ac yn cael cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hysgol.

Bydd unrhyw newidiadau i drefniadaeth ysgol yn cynnwys addasiadau priodol i'r amgylchedd ffisegol a staffio lle bo hynny'n briodol, gan flaenoriaethu diogelwch a llesiant ar gyfer pob grŵp oedran, yn unol â chanllawiau statudol.

Nodir bod y disgyblion yn rhoi gwerth ar berthnasoedd cadarnhaol, chwarae, ac amgylchedd dysgu cefnogol. Bydd yr agweddau hyn yn cael eu cynnal a'u gwella fel rhan o unrhyw newidiadau trefniadaethol.

Mae'r cynnig yn cefnogi addysg blynyddoedd cynnar ac yn cydnabod manteision trochi cynnar yn y Gymraeg a chreu cymuned. Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chefnogi teuluoedd. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod y broses bontio'n hwylus a bod pob disgybl a rhiant yn elwa ar y newidiadau.

Nodir pryderon am le, diogelwch, a staffio. Bydd yr Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethu yn sicrhau bod cyfleusterau, adnoddau a lefelau staffio yn ddigonol i gefnogi pob disgybl yn ddiogel ac yn effeithiol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion i newid lefelau staffio neu wneud addasiadau i'r adeilad i gefnogi'r newidiadau arfaethedig.

## 4.5 YMATEB ESTYN:

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig "yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3-11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4-11 presennol yr ysgol". Mae themâu allweddol ymateb Estyn yn cael eu crynhoi yn y tablau sy'n dilyn. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

| **Thema 1: Safonau a Darpariaeth Addysgol** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn Estyn y bydd y cynnig yn cynnal neu'n gwella safonau addysgol cyfrwng Cymraeg i blant 3–11 oed. Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, nodi anghenion dysgu yn gynnar, a chymorth cynhwysol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY ac o gefndiroedd difreintiedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro safonau a chanlyniadau llesiant drwy gydol y broses weithredu. |

| **Thema 2: Rhesymau a Manteision** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod Estyn yn cydnabod y rhesymeg glir a'r manteision a ragwelir ar gyfer hyfywedd yr ysgol ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r cynnig yn cefnogi nod strategol cymunedau dysgu cynaliadwy ac yn cyd-fynd â gofyniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion i ddangos manteision addysgol a threfniadaethol. |
| **Thema 3: Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned** |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cymeradwyaeth Estyn bod y cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'i botensial i gryfhau parhad y Gymraeg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod ehangu'r ddarpariaeth yn cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r Gymraeg yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac ymgysylltu parhaus. |
| **Thema 4: Risgiau a Mesurau Lliniaru** |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Ar hyn o bryd, rhaid i ddisgyblion oedran meithrin yn nalgylch Ysgol y Ddwylan gael mynediad at addysg blynyddoedd cynnar y tu allan i'r ardal. Mae amcanestyniadau'n dangos galw am oddeutu 12 lle meithrin yn y dalgylch erbyn 2026. Yn ystod yr ymgynghoriad, ni chafwyd unrhyw ymatebion gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar y cysylltwyd â nhw drwy e-bost fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r cynnig yn cyflwyno darpariaeth feithrin ran-amser, a fyddai'n ategu gwasanaethau presennol trwy alluogi darparwyr eraill i gynnig gofal plant cofleidiol a diwrnod llawn. Mae meithrinfa ddydd leol a sawl gwarchodwr plant yn y dalgylch a allai elwa ar y trefniant hwn. Ar y cyfan, credir y bydd cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol y Ddwylan yn ateb y galw lleol heb gael effaith niweidiol ar ddarparwyr preifat neu drydydd sector. Gwahoddwyd mynegiannau o ddiddordeb gan yr holl ddarparwyr gofal cofleidiol nas cynhelir i ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd sy'n ofynnol i gynnig yr elfen addysg. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw fynegiant o ddiddordeb o ardal Castellnewydd Emlyn, a arweiniodd at ddatblygu'r cynnig i newid yr ystod oedran yn Ysgol y Ddwylan. |
| **Thema 5: Cyfleusterau a Chapasiti** |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol i gefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion, heb fod angen cyllid cyfalaf ychwanegol. Bydd yr amgylchedd dysgu yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cefnogi anghenion pob plentyn. |

| **Thema 6: Gweithredu a Phontio** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod sylw Estyn ynglŷn â'r cynllun pontio. Ni ragwelir y bydd llawer o ofynion pontio a byddant yn cael eu rheoli gan yr ysgol a'r corff llywodraethu. |

## 5. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ailasesu'r cynnig gwreiddiol ac yn cadarnhau nad yw ei asesiad cynharach wedi newid.

Credir mai gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 yw'r dull mwyaf addas am y rhesymau canlynol:

- Mae'n rhoi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol.
- Mae'n cynnig proses bontio raddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau'r ysgol, gan ddechrau gyda sesiynau hanner diwrnod a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn.
- Gallai ddenu mwy o ddisgyblion i fynychu'r ysgol a lleihau nifer y lleoedd gwag gan wneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.
- Gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar greu taith addysgol barhaus i blant wrth iddynt symud ymlaen i Ysgol Gyfun Emlyn, gan gryfhau parhad ac integreiddio cymunedol.
- Mae'n cynyddu nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael yng Nghastellnewydd Emlyn, gan helpu i leihau anghydraddoldeb o ran cyfleoedd a deilliannau mewn addysg.
  Mae'n cynnig cyfleoedd cynnar i drochi yn y Gymraeg, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sgiliau ieithyddol disgyblion.

## 6. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac asesu'r cynnig, argymhellir y dylid gofyn am ganiatâd i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad. Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu manteision y cynnig a

nodwyd, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg, gwella cynaliadwyedd yr ysgol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygu'r Gymraeg.

## 7. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion ai peidio neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion.

## ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Cyflwyniad

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Y Ddwylan o 4-11 i 3-11.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4–11 presennol yr ysgol.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhesymeg glir ar gyfer y cynnig hwn, sy'n amlinellu manteision newid yr ystod oedran yn Ysgol Y Ddwylan o 4–11 i 3–11. Er ei fod yn amlinellu'r weithdrefn statudol ac amserlen ragamcanol, yr unig ddyddiad gweithredu sydd wedi'i gadarnhau yw mis Medi 2026, heb unrhyw gynllun awgrymedig ar gyfer y cyfnod pontio. O ystyried bod y cynnig yn amlinellu bod cyfleusterau digonol yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai'n rhesymol tybio y byddai gofynion pontio yn fach iawn.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn nodi manteision ac anfanteision mewn ffordd gytbwys ac yn cynnwys mesurau i reoli risgiau posibl. Mae'n ymddangos bod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision. Risg nodedig yw'r effaith bosibl ar ddarparwyr meithrinfeydd a gwarchodwyr plant preifat, ac mae'r Cyngor yn ymrwymo i ymgynghori'n agored â nhw i asesu unrhyw effaith bosibl. Mae'r cynnig yn nodi nad oes unrhyw ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar o fewn dalgylch yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu'r cynnig yn erbyn cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r hyn sy'n ymddangos yn rhesymu clir. Mae'r awdurdod yn nodi nad oes cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion 3 oed, gan fod addysg y blynyddoedd cynnar yn anstatudol. Wrth wneud ei benderfyniad, mae'r Cyngor yn ystyried effaith costau teithio ar deuluoedd incwm isel ac yn amlygu sut gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar drefniadau teithio'r rhai sy'n teithio'r tu allan i'w dalgylch ar hyn o bryd i gael addysg gynnar. Yn ychwanegol, mae'n cynnig helpu cau'r bwlch yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed yn nalgylch Ysgol Y Ddwylan.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Hefyd, disgwylir y bydd y newidiadau'n lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Y Ddwylan wedi bod yn dilyn tuedd ostyngol, gan adael 18.6% o leoedd dros ben yn yr ysgol.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn dangos bod hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Byddai dosbarth Meithrin cyfrwng Cymraeg yn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch yn y gymuned leol, gan gryfhau'r cyfnod pontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn iawn i gydnabod y gallai'r cynigion, os cânt eu gweithredu, effeithio o bosibl ar hyfywedd darparwyr gofal plant eraill, a cholli cyfleoedd trochi cynnar yn y Gymraeg ar gyfer y plant cyn-ysgol ieuengaf, o bosibl. Nid yw hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Cymraeg 2050.

Os caiff ei gymeradwyo, ni fyddai angen cyllid cyfalaf ar y cynnig. Byddai capasiti yn yr ystafelloedd dosbarth presennol i dderbyn y disgyblion ychwanegol, a byddai'r ysgol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr yn rhoi sylw gofalus i ddeilliannau addysgol. Mae'r cynnig yn defnyddio adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn, gan nodi cryfderau presennol ac argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n tybio'n rhesymol y byddai Ysgol Y Ddwylan yn cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â'i chynnig 4–11 presennol. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar safonau na chynnydd disgyblion.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn yn dweud bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ym mhob agwedd ar eu dysgu wrth iddynt symud trwy'r ysgol, a bod amgylchedd effeithiol, cynhwysol a theuluol yn yr ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les dysgwyr. Mae'r diwylliant effeithiol a chynhwysol hwn yn awgrymu bod ehangu darpariaeth yn annhebygol o gael effeithiau andwyol ar les disgyblion. Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatganiad rhesymol.

Mae'r cynnig yn nodi bod yr ysgol yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion iau ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol yn yr amgylchedd dysgu yn yr ystafell ddosbarth dan do ac yn yr awyr agored. Disgwylir y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'n ymddangos bod anghenion grwpiau bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, yn cael eu hystyried yn ofalus. Disgwylir y bydd mynediad cynharach at

addysg yn cefnogi nodi anghenion dysgu unigol a darparu ymyriadau priodol yn amserol, gan wella deilliannau dysgwyr. Mae'r cynnig yn mynegi hyder yng ngallu'r ysgol i ddatblygu cwricwlwm cefnogol sy'n sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob dysgwr. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

**Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin**

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried adeiladau, cyfleusterau a hyfywedd tymor hir yn briodol. Mae capasiti ar gyfer 43 o ddisgyblion Meithrin yn yr amgylchedd dysgu arfaethedig. Byddai'r cynnig yn cynyddu'r nifer derbyn i 44 a chyfanswm capasiti o 357. Gan fod yr ysgol yn gweithredu islaw'r capasiti ar hyn o bryd, a rhagamcenir y bydd ganddi 224 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys dosbarth Meithrin ym mis Ionawr 2027, mae ganddi ddigon o ofod ystafell ddosbarth i dderbyn y disgyblion ychwanegol. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y ddarpariaeth feithrin ychwanegol yn hybu niferoedd y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei hyfywedd. Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatganiad rhesymol. Mae'r cynnig yn datgan bod digon o le yn yr awyr agored yn yr ysgol i ddarparu'n benodol ar gyfer disgyblion meithrin, yn ogystal â disgyblion o oedran ysgol gorfodol.

Mae'r cynnig yn amlinellu bwlch yn narpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylch Ysgol Y Ddwylan. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mae'r ysgol yn anelu at barhau i gynnig darpariaeth gofal cofleidiol ar y safle trwy'r Cylch Meithrin, ochr yn ochr â darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar, gan sicrhau ymagwedd integredig at addysg a gofal.

Mae'r cynnig yn cydnabod yr effaith bosibl ar ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy'n agos at Ysgol Llanybydder, y mae'r un agosaf 3.1 milltir o'r ysgol. Mae'r cynnig yn datgan y gall rhanddeiliaid allweddol ymateb i'r cynnig gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ac y bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr holl safbwyntiau ac effeithiau posibl cyn gwneud penderfyniad.

## ATODIAD B – YMGYNGHORI Â DISGYBLION

Crynodeb o'r Ymgynghoriad gyda'r Disgyblion
Ysgol y Ddwylan

*Dyddiad: 15/10/2025*

*Cyd-destun y disgyblion a gymerodd ran: 8 disgybl o flynyddoedd 5 a 6 sy'n aelodau o'r cyngor ysgol.*

*Swyddog sy'n hwyluso'r ymgynghoriad: Mr Eirwyn Griffiths (YCA)*

*Fe'i cynhaliwyd fel ymgynghoriad grŵp lle roedd yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan ym mhob cwestiwn. Mae'r ymatebion isod yn grynodeb o'r holl farn a gasglwyd gan y disgyblion.*

**1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?**
✏️ Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl am hynny:

Nid oedd disgyblion yn ymwybodol o'r newid hwn ond roeddent yn hapus i gael eu cynnwys yn y broses o benderfynu.

**2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?**
✏️ Pam ydych chi'n teimlo felly?

Rwy'n credu y gallai fod yn newid cadarnhaol oherwydd bydd plant iau yn cael y cyfle i ddechrau dysgu yn gynharach. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu geiriau'n gyflymach, datblygu eu sgiliau Cymraeg, a dod yn ddwyieithog, sy'n fantais fawr am oes. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud yn siŵr bod yr ysgol yn ddiogel ac yn addas iddyn nhw. Mae hynny'n golygu creu mwy o le ar gyfer chwarae, ychwanegu glaswellt neu ardaloedd meddal yn yr iard, a defnyddio lloriau rwber i atal anafiadau. Efallai y bydd angen i ni hefyd ad-drefnu'r maes chwarae a'r ystafelloedd dosbarth i sicrhau bod gan bawb ddigon o le.

Byddwn i'n teimlo'n hapus oherwydd mae'n rhoi cyfle i blant iau ddysgu ac ymgartrefu yn yr ysgol yn gynharach. Byddai hefyd yn gwneud i mi deimlo'n fwy aeddfed gan roi mwy o gyfrifoldeb i mi, sy'n ffordd dda o baratoi ar gyfer bywyd. Gallai disgyblion hŷn helpu rhai iau, a fyddai'n rhoi ymdeimlad o bwrpas i ni ac yn ein helpu i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth. Mae hefyd yn gyfle i wneud yr ysgol yn lle gwell i bawb.

**3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?**
Rwy'n hoff iawn o'r athrawon oherwydd eu bod yn dysgu pethau diddorol i ni ac yn ein helpu i ddatrys problemau'n dawel. Rwy'n mwynhau amser chwarae gyda

fy ffrindiau, fframiau dringo ac offer chwarae awyr agored, a gwersi addysg gorfforol. Rwyf hefyd yn hoffi bod gennym amser i feddwl a dysgu mewn amgylchedd tawel.

**4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?**
✏️ Unrhyw bethau da eraill y gallwch chi feddwl amdanynt?

Byddai'n helpu plant iau i setlo i'r ysgol yn well a dysgu'n gyflymach. Gallent ddechrau darllen ac ysgrifennu yn gynharach, sy'n wych i'w haddysg. Byddai hefyd yn rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb i ddisgyblion hŷn helpu'r rhai iau. Gallai hyn wneud cymuned yr ysgol yn gryfach ac yn fwy cefnogol. Mae hefyd yn ffordd dda o helpu rhieni gartref oherwydd bydd eu plant yn dysgu mwy o oedran ifancach.

**5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?**
✏️ Dywedwch fwy wrthym neu tynnwch lun o'ch' eich pryderon:

Rwy'n poeni efallai na fydd digon o le i bawb, a bydd angen ad-drefnu'r iard. Gallai plant iau syrthio a brifo eu hunain oherwydd nad yw eu cyrff yn barod ar gyfer rhai gweithgareddau. Mae yna hefyd risg o dorri esgyrn neu ddamweiniau os nad yw'r ardaloedd chwarae yn ddiogel. Efallai y byddant yn aflonydd ac yn ei chael hi'n anodd ymuno â phopeth, a allai achosi straen i athrawon. Bydd angen mwy o athrawon arnom i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

**6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?**
✏️ Dyma'ch lle i rannu eich syniadau! (meddyliau cryno pob plentyn a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau)

Nid wyf yn poeni am blant yn dechrau'r ysgol yn dair oed, ond nid wyf yn credu y dylent ddechrau cyn pedair oed. Gallai dechrau yn dair oed weithio i rai plant, ond mae angen amser ar blant ifanc iawn i ddatblygu mwy cyn ymuno â'r ysgol. Gallai dechrau'n rhy gynnar roi pwysau arnyn nhw a'r athrawon.

Rwy'n credu y dylai plant ddechrau yn dair oherwydd ei fod o fudd iddyn nhw gyda darllen a dysgu. Gall dechrau'r ysgol yn gynharach helpu plant i ddysgu darllen ac ysgrifennu yn gynt, sy'n rhoi dechrau cryf iddynt ar gyfer addysg.

Ydw, rwy'n credu y dylai plant ddechrau yn dair, ond mae'n bwysig sicrhau bod ganddynt y math cywir o le i fod yn ddiogel yn yr ysgol. Os bydd plant iau yn dechrau'r ysgol, rhaid newid yr amgylchedd iddynt fel lloriau meddal, ardaloedd glaswellt, a mannau chwarae diogel i atal anafiadau.

Dylent ddechrau yn 3 ond eu rhoi mewn grwpiau bach o blant ar gyfer sesiynau byrrach, fel tair awr yn unig. Efallai y bydd plant iau yn gweld diwrnodau ysgol

llawn yn ormod. Byddai sesiynau byrrach mewn grwpiau bach yn eu helpu i setlo'n raddol a theimlo'n gyfforddus.

Nid wyf yn credu y dylai plant ddechrau yn dair, dylent ddechrau yn 4. Bydd yn costio mwy i'r ysgol a gallai olygu llai o gyfleoedd i ni y plant hŷn, felly cadwch yr oedran dechrau yn bedair oed. Bydd ychwanegu plant iau yn golygu bod angen mwy o athrawon, adnoddau a lle arnom. Gallai hyn leihau'r sylw a'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn.

Dwi moyn iddyn nhw i ddechrau yn dair oed i roi mwy o gyfle i ni ofalu am blant ifancach. Bydd hyn yn helpu ein sgiliau ni wrth gymryd mwy o gyfrifoldeb.
Gall dechrau yn dair helpu plant i ddysgu mwy a chefnogi rhieni gartref. Mae'n rhoi cefnogaeth ychwanegol i rieni ac yn sicrhau bod plant yn dysgu o oedran cynharach, sy'n helpu pawb.

Dylai plant ddechrau yn dair. Bydd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau iaith, ymgyfarwyddo ag arferion yr ysgol, a dod yn ddwyieithog yn gynt.